

Arolygiad Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl: Gwasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Ysbyty Ystrad Fawr / Tŷ Cyfannol,
Tŷ Glas ac Annwylfan / Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 10 Hydref
2017

Dyddiad cyhoeddi: 11 Ionawr
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	20
4.	Beth nesaf?	24
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG.....	25
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	26
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	27
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	28

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad monitro dirybudd o weithrediad y Ddeddf Iechyd Meddwl yn y GIG yn Ysbyty Ystrad Fawr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 10 Hydref 2017. Ymwelwyd â'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Tŷ Cyfannol
- Tŷ Glas
- Annwylfan

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid Deddf Iechyd Meddwl.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf. Gwnaethom ystyried sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r canlynol:

- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Archwiliodd AGIC hefyd sut roedd y gwasanaeth yn bodloni agweddau ar y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir mwy o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom fod y cofnodion a adolygwyd yn cydymffurfio'n gyfreithiol â gofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod ffurflenni absenoldeb Adran 17 yn cael eu marcio'n glir er mwyn nodi pan nad ydynt bellach yn ddilys. Y rheswm dros hyn yw osgoi dryswch unwaith fod cyfnod penodol o absenoldeb wedi mynd heibio. Mae angen i ffurflenni absenoldeb Adran 17 hefyd gael eu cwblhau'n llawn, heb unrhyw fylchau.

Gwelsom fod yr amgylchedd yn addas i'r grwpiau cleifion a'i fod yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Gwnaethom argymhell clirio bonion sigarennau o ardd Tŷ Cyfannol oherwydd eu bod yn gwneud i'r ardal ymddangos yn frwnt ac yn ddiwahoddiad.

Drwy drafodaethau â staff ac arsylwadau ar yr holl wardiau, daethom i'r casgliad fod gwaith tîm da ar waith a bod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon i gleifion.

Gwnaethom argymhell bod gwybodaeth am gwynion yn cael ei harddangos yn glir i helpu cleifion ac ymwelwyr a bod y system hyfforddiant ar-lein yn cael ei diweddarau'n gywir i adlewyrchu statws hyfforddiant staff (ar ward Tŷ Cyfannol).

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom waith tîm da ar draws yr holl wardiau ac roedd hyrwyddwyr Deddf Iechyd Meddwl ym mhob ardal i gefnogi'r holl staff
- Roedd cysylltiadau da rhwng y tîm Deddf Iechyd Meddwl, clercod y ward, a gwasanaethau cyffredinol yr ysbyty
- Roedd monitro gofal iechyd corfforol da ar waith yn unol ag arweiniad cenedlaethol
- Roedd llyfrynnau 'Dyma Fi' ar gael i gleifion gan ddarparu cofnodion o fywydau cleifion a oedd yn cyfrannu at eu therapi hel atgofion

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i ffurflenni absenoldeb Adran 17 gael eu marcio'n glir i nodi pan fo absenoldeb wedi dod i ben i osgoi unrhyw ddryswch diangen
- Rhaid i ffurflenni absenoldeb Adran 17 gael eu cwblhau heb unrhyw fylchau
- Dylai gwybodaeth am gwynion gael ei harddangos yn glir er lles cleifion ac ymwelwyr
- Mae angen adolygiad o hyfforddiant staff yn Nhŷ Cyfannol i sicrhau bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf
- Mae angen i'r ardd yn Nhŷ Cyfannol gael ei gwella drwy lanhau'r bonion sigarennau a sicrhau bod digon o oleuadau

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Ystrad Fawr yn darparu nifer o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Ffordd Ystrad Fawr, Ystradmynach, Hengoed, CF82 7GP, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Y wardiau iechyd meddwl yn Ysbyty Ystrad Fawr yw Annwylfan, Tŷ Cyfannol a Thŷ Glas. Mae Annwylfan yn darparu ymyriadau asesu a thriniaeth i bobl hŷn â dementia. Mae gan y ward 16 o ystafelloedd gwely en-suite, iard amgaaedig, ac ardaloedd therapiwtig eraill. Ward rhyw cymysg yw Annwylfan ac, ar ddiwedd yr arolygiad, roedd deg o gleifion yno.

Uned cleifion mewnol aciwt â 23 o welyau yw Tŷ Cyfannol. Mae'n darparu gofal sy'n canolbwyntio ar adfer i gleifion ag amrywiaeth o broblemau iechyd meddwl rhwng 18 a 65 oed. Roedd gan y ward rhyw cymysg hon 22 o gleifion ar adeg ein hymweliad. Roedd gan y ward ardaloedd therapiwtig, gan gynnwys dwy iard ardd amgaaedig.

Uned un gwely hunangynhwysol mewn ardal arall o'r ward yw Tŷ Glas, ond wedi'i rheoli gan staff o Dŷ Cyfannol. Mae staff Tŷ Cyfannol yn goruchwyllo'r gofal a'r driniaeth a ddarperir gan y cyfleuster hwn.

Roedd gan y wardiau dîm o staff sy'n cynnwys rheolwr y ward, clerwr y ward, nyrsys cofrestredig, gweithwyr cymorth gofal iechyd, ymgynghorwyr, a gwasanaethau therapi galwedigaethol a gwesty. Darperir sesiynau seicoleg dair neu bedair gwaith yr wythnos ac mae mewnbyn gan dimau iechyd meddwl cymunedol a thriniaeth yn y cartref ar gael i gleifion.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwnaethom arsylwi ar staff yn trin cleifion â pharch ac mewn modd cynnes drwy gydol ein harolygiad. Roedd y staff yn gwneud pob ymdrech i gynnal urddas cleifion, ac roedd yr ystafelloedd gwely en-suite yn darparu preifatrwydd ychwanegol ar gyfer y cleifion.

Roedd y ddwy ward yn addas i'r grŵp cleifion ac roeddent yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Yn ogystal, roedd gan y ddwy ward fannau awyr agored pleserus i gleifion eu mwynhau. Fodd bynnag, roedd ardal allanol Tŷ Cyfannol yn llawn bonion sigarennau, a wnaeth iddi edrych yn frwnt ac yn ddiwahoddiad.

Gwelsom hysbysfyrdau'n dangos amrywiaeth o wybodaeth i gleifion ac ymwelwyr, ond nid oedd unrhyw beth weladwy ynghylch cwynion a gwnaethom argymhell arddangos yr wybodaeth hon yn glir.

Gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a nodwyd yr amrywiaeth oedd ar gael. Fodd bynnag, hyn a hyn o weithgareddau oedd yn cael eu cynnig dros y penwythnos a chyda'r nos.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom gynnig y cyfle i gleifion, staff ac ymwelwyr siarad â ni. Dywedodd y rhai wnaeth siarad â ni, yn gyffredinol, eu bod yn hapus â'r gofal a'r driniaeth sy'n cael eu derbyn a bod y staff yn gynorthwyol ac yn gefnogol.

Cadw'n iach

Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu hannog i gynnal ffordd iach o fyw ac roedd peth gwybodaeth am faeth yn cael ei dangos yn yr ardal fwyta yn Nhŷ Cyfannol. Roedd tri phryd bwyd yn cael eu darparu'n ddyddiol amser

brecwast, cinio a the. Roedd y cleifion yn dewis eu bwyd wrth i'r bwyd gyrraedd y ward, ond roedd rhai sylwadau gan gleifion yn cadarnhau nad oedd eu ceisiadau am fwydydd penodol wedi cael eu bodloni. Felly, mae'n bwysig bodloni gofynion dietegol lle y bo'n bosib.

Roedd cleifion yn gallu symud yn rhydd o amgylch y ddwy ward ac roedd ganddynt fynediad i'w hystafelloedd gwely, lolfeydd, ac iardiau allanol. Roedd pwyntiau clymu wedi cael eu hasesu drwy'r ddwy ward ac roedd y risgiau wedi'u cyfyngu, fel y bo'n briodol i'r grŵp o gleifion. Roedd ward Annwylfan mewn siâp 'P', gyda drysau llydan a choridorau llyfn, a oedd yn darparu mynediad hawdd i gleifion a'r rhai sy'n defnyddio cymhorthion symudedd.

Roedd ardaloedd awyr agored yn hwylus ac roedd y staff a'r cleifion wedi gweithio arnynt i'w gwneud mor groesawgar a therapiwtig â phosib. Fodd bynnag, roedd ardal yr ardd sy'n gysylltiedig â Thŷ Cyfannol, a oedd â lloches smygu, yn llawn bonion sigarennau. Rodd hyn yn gwneud i'r ardal ymddangos yn frwnt ac yn hyll. Gwnaethom argymhell bod yr ardal yn cael ei thacluso a bod unigolion yn cael eu hannog i gynnal a chadw'r ardal. Yn ogystal, nid oedd unrhyw oleuadau y tu allan, er gwaethaf y staff yn cadarnhau bod cais wedi cael ei wneud. Argymhellir bod goleuadau priodol ar gael i holl ardaloedd y cleifion i sicrhau eu diogelwch.

Ar y ddwy ward, gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gemau, celf a chreffft, a choginio. Cafodd y rhain eu cefnogi gan therapyddion galwedigaethol brwdfrydig ac egnïol. Gwnaethom nodi ar adeg ein hymweliad fod y therapydd galwedigaethol sy'n gweithio yn Nhŷ Cyfannol yn gwneud pob ymdrech i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda chleifion, yn ogystal â chwblhau asesiadau therapydd galwedigaethol. Fodd bynnag, oherwydd mai un therapydd galwedigaethol yn unig oedd ar y ward hon, daethom i'r casgliad nad oedd hyn yn ddigonol ar gyfer y swyddogaeth hon. Yn ogystal, dywedyd wrthym fod y gweithgareddau grŵp a oedd ar waith, yn enwedig garddio mewn rhandir lleol, wedi'u canslo oherwydd nad oedd unrhyw staff i arwain y sesiwn. Yn ystod cyfarfod adborth gydag uwch-reolwyr, gwnaethom drafod y mater hwn a gofyn i hyn gael ei adolygu cyn gynted â phosib ac i'r rheolwyr ystyried ffyrdd o wella'r broblem uchod.

Roedd pwll hydrotherapi ar gael yn yr ysbyty, yr oedd rhai cleifion wedi'i ddefnyddio, ac roedd ystafell fechan yn Nhŷ Cyfannol yn cael ei defnyddio fel campfa. Fodd bynnag, dim ond un darn o gyfarpar oedd ar gael ac nid oedd unrhyw staff ar adeg ein hymweliad wedi'u hyfforddi i gefnogi cleifion i ddefnyddio'r cyfarpar. Cadarnhaodd trafodaethau gyda staff a chleifion mai ychydig neu ddim gweithgareddau oedd ar gael gyda'r nos a thros y penwythnos. Trafodwyd hyn gydag aelodau staff uwch a chaiff ei adrodd

amdano'n llawn yn adran 'Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn.

Roedd y wardiau wedi'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod a byddai'r holl ymwelwyr yn cofrestru yn ardal y dderbynfa i gael mynediad. Roedd hyn yn golygu bod pwyslais ar sicrhau diogelwch cleifion a staff. Roedd gan ddrysau'r fynedfa wydr anhryloyw a oedd yn caniatáu preifatrwydd ac urddas cleifion ar y wardiau.

Roedd bwrdd statws cleifion¹ ym mhob swyddfa ward a oedd yn dangos gwybodaeth gyfrinachol ynghylch pob claf oedd yn derbyn gofal ar y ward. Roedd cyfleusterau ar gael i guddio gwybodaeth gyfrinachol pan nad oedd y byrddau'n cael eu defnyddio. Roedd hyn yn golygu bod tîm y staff yn gwneud pob ymdrech i ddiogelu cyfrinachedd cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwelliannau i Dŷ Cyfannol, yn enwedig yn ardal yr ardd, lle dylid glanhau bonion sigarennau ac annog unigolion sy'n defnyddio'r cyfleuster i gynnal ymddangosiad glân a chroesawgar.

Mae angen gosod goleuadau addas, yn enwedig yn y manau awyr agored, i sicrhau diogelwch y sawl sy'n defnyddio'r ardaloedd hynny.

Gofal ag urddas

Gwelsom fod staff ar yr holl wardiau'n rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion mewn modd priodol ac yn trin cleifion â chynhesrwydd, parch ac urddas. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am sut roeddent yn cefnogi ac yn gofalu am y cleifion.

¹ Bwrdd sy'n rhoi cyfeiriad cyflym i'r staff ynghylch yr wybodaeth hanfodol am gleifion unigol sy'n derbyn gofal ar y ward.

Clywsom y staff yn siarad â chleifion mewn lleisiau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Roedd tystiolaeth fod y staff yn galw'r cleifion wrth eu henwau dewisol.

Roedd gan bob ystafell wely banel arsylwi (ffenstr) yn y drws a gwelsom fod y rhain yn bennaf yn agored. Oherwydd nad oedd y cleifion yn gallu defnyddio'r rhain o'r tu mewn i'w hystafell wely, dylai paneli arsylwi fod ar gau er preifatrwydd ac ond yn cael eu hagor er mwyn arsylwi neu os yw'r claf yn dewis hynny. Mae hyn er mwyn cefnogi urddas a hawl i breifatrwydd cleifion.

Roedd gan gleifion ar ward Annwylfan lyfrynnau 'Dyma Fi', a oedd yn cael eu cwblhau ynghyd â'u teulu. Roedd yr wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am y claf, ei yrfa flaenorol, ei ddiddordebau, ei hobïau, ei hoffterau, ei gasbethau, ac aelodau'r teulu. Cydnabuwyd gennym fod y llyfrynnau hyn yn arfer da, yn enwedig oherwydd eu bod yn rhan o therapi hel atgofion y cleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd digon o hysbysfyrddau a gwybodaeth am gleifion wedi'u harddangos ar y wardiau ac yn ardal aros yr uned iechyd meddwl. Ar ward Tŷ Cyfannol, roedd tri hysbysfwrdd yn darparu gwybodaeth i berthnasau, nyrsys sy'n fyfyrwyr, a staff. Roedd bwrdd y perthnasau'n cynnwys amserau ymweld, arweiniad ar yr eitemau sy'n cael dod i'r ward, a gwybodaeth i ofalwyr ac am awtistiaeth. Roedd gan fwrdd y staff luniau o'r holl staff, gan gynnwys eu henw a'u rôl. Roedd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i gleifion ac ymwelwyr er mwyn ymgyswrtu â'r tîm.

Ar ward Tŷ Cyfannol, cafodd y bwrdd ei ddiweddarau'n ddyddiol i ddangos y dyddiad a'r staff a oedd yn gweithio. Roedd hyn yn galluogi cleifion i ymgyswrtu â'r staff sydd ar gael i'w cefnogi.

Roedd taflenni gwybodaeth ar gael ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth am eiriolaeth, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta, yn ogystal â thafenni penodol yn Gymraeg.

Nid oedd unrhyw wybodaeth yn weladwy a/neu ar gael am sut gallai cleifion a'u teuluoedd wneud cwyn. Gweler yr adran 'Gwrando a dysgu o adborth' am fwy o fanylion ac argymhellion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Trwy gydol ein harsylwadau ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu â chleifion yn effeithiol. Er

enghraifft, clywsom staff yn ymgymryd â thrafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r cleifion unigol.

Gofal amserol

Roedd gan yr holl wardiau dîm amlddisgyblaethol a oedd yn cynnwys therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr ac ymgynghorwyr. Roedd cyfarfodydd amlddisgyblaethol rheolaidd yn ymgorffori ymagwedd gydweithredol yn y gofal, a oedd yn canolbwyntio ar y claf. Roedd gan gleifion fynediad i wasanaethau eiriolaeth ac eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol yn ôl y gofyn.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Gallai cleifion ddefnyddio'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol a hefyd gael fynediad i'r gwasanaeth eiriolaeth galluedd meddyliol annibynnol pan fo angen.

Roedd lleoedd addas i gleifion gwrdd ag ymwelwyr yn breifat ar y ddwy ward ynghyd â threfniadau i wneud galwadau ffôn preifat.

Roedd gan ward Dŷ Cyfannol ardal i blant oedd yn ymweld a oedd wedi'i haddurno mewn modd priodol i blant ac yn cynnwys teganau, llyfrau, a pheth deunydd celf a chreffft.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan ward Tŷ Cyfannol grŵp 'Gwrando Arnaf' a oedd yn cael ei hwyluso gan therapydd galwedigaethol. Roedd y grŵp hwn yn rhoi'r cyfle i gleifion gyflwyno sylwadau ar y gwasanaeth. Dywedodd staff wrthym fod arolygon cleifion yn cael eu darparu yn ôl y galw a bod y canlyniadau'n cael eu trafod gyda'r staff a bod gwelliannau yn cael eu gwneud lle y bo'n bosib.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn helpu cleifion a oedd yn darparu unrhyw sylwadau llafar i sicrhau eu bod yn cael eu nodi ac yr eid i'r afael â hwy mewn modd priodol.

Roedd gwasanaethau eiriolaeth ar gael i ddarparu cyngor annibynnol i unrhyw glaf a oedd am leisio unrhyw bryderon.

Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth yn weladwy am sut gallai cleifion a/neu eu teuluoedd wneud cwyn. Roedd trafodaethau â staff hefyd yn tynnu sylw at eu diffyg gwybodaeth am broses cyflwyno cwynion y GIG. Felly, gwnaethom argymhell bod gwybodaeth am gwynion i'w gweld yn glir ac ar gael i gleifion ac ymwelwyr, a bod dealltwriaeth y staff yn cael ei gwella fel eu bod yn deall y broses mae angen iddynt ei dilyn os ydynt yn derbyn cwyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i wybodaeth am gwynion fod yn weladwy ac ar gael i gleifion a'u teuluoedd. Mae angen gwella dealltwriaeth staff ynghylch y broses mae angen iddynt ei dilyn os ydynt yn derbyn cwyn.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg, gyda dodrefn, gosodiadau a ffitiadau a oedd yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion ar bob ward.

Gwelsom fod y dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth. Gwnaethom argymhell bod ffurflenni absenoldeb Adran 17 yn cael eu marcio fel wedi canslo i osgoi unrhyw ddryswch o ran pryd daeth cyfnodau o absenoldeb i ben. Yn ogystal, dylai ffurflenni absenoldeb Adran 17 gael eu cwblhau'n llawn heb unrhyw fylchau.

Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth cleifion yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru² ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau. Roedd hyn yn caniatáu i'r staff barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Gofal diogel

² Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn amlinellu'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol; cydlynu a chynllunio ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd; asesiadau o anghenion hen ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd; eiriolaeth annibynnol ar gyfer unigolion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac unigolion eraill sy'n derbyn triniaeth claf mewnol ar gyfer iechyd meddwl; ac at ddibenion cysylltiedig.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau, a chynnal iechyd a diogelwch ar yr holl wardiau. Roedd wardiau Tŷ Cyfannol ac Annwylfan yn darparu gofal unigol i gleifion a oedd yn cael ei gefnogi gan arferion lleiaf cyfyngol.

Mae desg dderbynfa wrth y mynediad i'r wardiau ac mae ymwelwyr yn cofrestru yma i gael mynediad i'r ward briodol. Roedd y ddwy ward ar glo, ond roedd y staff yn cael mynediad iddynt gan ddefnyddio system ffob. Mae'r staff yn hebrwng ymwelwyr i'r ward ac mae hyn yn sicrhau diogelwch cleifion ac ymwelwyr â'r ward.

Roedd gan y staff fynediad i larymau personol a gwelsom staff yn gwisgo'r rhain yn ystod ein hymweliad. Roedd clychau galw yn ystafelloedd gwely'r cleifion ar yr holl wardiau ac mewn lleoliadau penodol yn y coridorau ar ward Tŷ Cyfannol. Yn ogystal, roedd pob sifft yn cynnwys nyrs ddiogelwch a oedd yn gyfrifol am gynnal protocolau diogelwch y ward.

Ymddengys fod y ddwy ward wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, a oedd yn sicrhau diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr. Roedd y staff yn gallu adrodd am broblemau amgylcheddol i dîm ystadau'r ysbyty, a gadarnhaodd eu bod yn cael eu datrys yn amserol.

Roedd y dodrefn, y darnau gosod a'r gosodiadau ar ward Tŷ Cyfannol ac Annwylfan yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion.

Gwelwyd nad oedd cofnod o dymheredd yr oergell yn yr ystafell driniaeth ar ward Tŷ Cyfannol a bod dim menig tafladwy yn y dosbarthwr. Rhoddwyd gwybod i'r staff am y problemau hyn wrth eu darganfod a gwnaethom dderbyn sicrwydd ar lafar y byddai camau cywirol yn cael eu cymryd. Mae'n hanfodol cynnal cofnodion tymheredd yr oergell i sicrhau bod cyffuriau'n cael eu storio ar y tymheredd cywir a bod menig ar gael bob tro i sicrhau iechyd a diogelwch y staff.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty'n canolbwyntio ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gydag atgyfeiriadau yn cael eu gwneud i asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Cawsom sicrwydd ar adeg ein hymweliad fod claf nad oedd yn addas ar gyfer yr ysbyty hwn yn y broses o gael ei ryddhau i ysbyty mwy priodol. Roedd y staff wedi cydnabod hyn ac roedd y claf yn cael ei gefnogi gan nifer o sefydliadau a

oedd yn addas i gyflwr y claf er mwyn sicrhau bod y broses o'i symud mor ddigynnwrf â phosib.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y ddwy ward yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol ar gyfer cleifion.

Roedd gofal iechyd corfforol yn cael ei fonitro a'i gofnodi ar gyfer yr holl gleifion gan ddefnyddio'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol.³ Mae'r math hwn o fonitro'n helpu staff i gydnabod cleifion y mae eu cyflwr yn gwaethygu fel y gallant elwa o gael eu trin mor gyflym â phosib.

Cadw cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd gennym yn gymysgedd o ffeiliau electronig a phapur. Roedd trefniadau storio diogel ar waith i atal mynediad heb awdurdod a thorri cyfrinachedd.

Yn gyffredinol, o'r cofnodion a adolygwyd gennym, gwelsom fod atebolrwydd a thystiolaeth glir o sut roedd penderfyniadau sy'n ymwneud â gofal cleifion yn cael eu gwneud. Roedd y cofnodion o safon dda o ran cywirdeb a chyflawnrwydd ac roeddent yn ddarllenadwy.

O'r cofnodion a adolygwyd gennym, gwnaethom nodi'r asesiadau cynhwysfawr ar gyfer monitro iechyd corfforol cleifion.

Roedd gwaith rhagorol hefyd o ran llunio risgiau posib a chynlluniau rheoli.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

³ Arweiniad a ddefnyddir gan y gwasanaeth meddygol i bennu graddau salwch claf yw Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol. Mae Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn seiliedig ar yr egwyddor y gellir gweld dirywiad clinigol drwy newidiadau mewn mesuriadau ffisiolegol lluosog (y gyfradd anadlol, dirlawnder ocsigen, tymheredd, pwysau gwaed, cyfradd curiad y galon, a lefel ymwybyddiaeth), yn ogystal â newidiadau mawr mewn newidyn unigol.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol ar gyfer pedwar claf ar draws y ddwy ward. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion a adolygwyd gennym yn cydymffurfio'n gyfreithiol o ran gofynion y Ddeddf ac o safon dda, gan adlewyrchu'r cod ymarfer.

O'r cofnodion cleifion a adolygwyd gennym, gwnaethom nodi bod galluedd meddyliol yn cael ei asesu fel rhan o'r broses dderbyn a bod asesiad y clinigwr cyfrifol wedi'i nodi.

Yn yr holl gofnodion, gwelsom fod gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy wedi cyfweld ac asesu'r claf ac wedi darparu cofnod manwl a chynhwysfawr yn unol â gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r cod ymarfer.

Gwnaethom nodi bod yr holl absenoldebau wedi cael eu hawdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17. Fodd bynnag, gwnaethom ddarganfod ffurflen absenoldeb nad oedd wedi'i chwblhau'n llawn, gyda rhannau o'r ffurflen yn wag. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu penderfynu p'un a oedd y claf wedi gwrthod rhoi'r wybodaeth neu nad oedd am gael copi. Felly, gwnaethom argymhell bod yr holl ffurflenni absenoldeb Adran 17 yn cael eu cwblhau'n llawn i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr.

Yn ogystal, gwnaethom nodi nad oedd ffurflenni absenoldeb Adran 17 yn cael eu marcio'n glir fel wedi dod i ben unwaith i'r cyfnod hwnnw o absenoldeb ddod i ben. Felly, gwnaethom argymhell bod ffurflenni absenoldeb Adran 17 yn cael eu marcio fel eu bod wedi dod i ben pan nad ydynt bellach yn ddilys. Roedd hyn er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.

O'r cofnodion a adolygwyd gennym, nid oedd gan y cleifion dan gadwad ar absenoldeb Adran 17 ffotograffau i'w nodi yn eu ffeil. Mae'n arfer da cael ffotograff o'r claf yn y ffeil oherwydd gall hyn helpu gydag unrhyw sefyllfaoedd lle mae claf 'yn absennol heb ganiatâd'.

Roedd tîm gweinyddol Deddf Iechyd Meddwl y bwrdd iechyd yn sicrhau bod cleifion yn cael eu hawliau statudol o dan y Ddeddf, gan gynnwys apelio yn erbyn eu cadw. Roedd tystiolaeth fod cleifion yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth eiriolaeth.

Cawsom wybod bod Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn mynd i ailddechrau a bod cysylltiad da rhwng y tîm Deddf Iechyd Meddwl a chlercod y wardiau. Mae'r mentrau cadarnhaol hyn yn sicrhau bod gofynion cyfreithiol y Ddeddf yn cael eu hystyried ar y cyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen marcio ffurflenni absenoldeb Adran 17 fel wedi canslo pan fydd y cyfnod hwnnw o absenoldeb wedi dod i ben.

Mae angen cwblhau ffurflenni Adran 17 yn llawn heb unrhyw fylchau.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Ynghyd â'n hadolygiad o ddogfennau cadw statudol, gwnaethom ystyried defnydd o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Gwnaethom adolygu sampl o gynlluniau gofal a thriniaeth a gweld bod tystiolaeth fod cydlynwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer cleifion a, lle y bo'n briodol, bod aelodau'r teulu'n rhan o drefniadau cynllunio gofal.

Roedd tystiolaeth glir yn y cynlluniau gofal a thriniaeth a adolygwyd gennym fod gwasanaethau eiriolaeth ar gael i'r holl gleifion a bod gwybodaeth yn ymwneud â'r gwasanaethau hyn yn hygyrch.

Er mwyn cefnogi cynlluniau gofal cleifion, roedd amrywiaeth eang o asesiadau cleifion i nodi a monitro'r gofal a ddarperir i gleifion, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau canfyddedig a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Gwelsom fod y cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu parthau Mesur Cymru.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hunan ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Drwy drafodaethau â staff ac arsylwadau ar yr holl wardiau, daethom i'r casgliad fod gwaith tîm da ar waith a bod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon i'r cleifion.

Roedd prosesau ar waith i staff dderbyn arfarniad blynyddol a chwblhau rhaglen o hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl rheolaidd. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r system a ddefnyddir i gofnodi a monitro hyfforddiant staff gael ei hadolygu ar frys oherwydd bod y cofnodion a adolygwyd ar ward Tŷ Cyfannol yn dangos nad oedd y staff yn gyfredol yn hyn o beth.

Roedd mewnbwn da gan y tîm amlddisgyblaethol ar gyfer yr holl wardiau a gwnaethom groesawu barn yr uwch-reolwyr yn y cyfarfod adborth na ddylai gweithgareddau a therapïau gael eu cyfyngu gan ymagwedd dydd Llun i ddydd Gwener 9pm–5pm.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod yr holl wardiau'n canolbwyntio ar wella'u gwasanaethau'n barhaus. Cyflawnwyd hyn, yn rhannol, drwy raglen archwilio dreigl, y mae ei chanlyniadau yn cael eu cyflwyno i uwch-reolwyr fel y gall canlyniadau gael eu monitro a chanlyniadau clinigol eu trafod ynghylch cyflwyno gofal cleifion.

Roedd gan Annwylfan a Thŷ Cyfannol reolwyr ward dynodedig a oedd yn cael eu cefnogi gan dimau ward ac amlddisgyblaethol ymroddedig. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd rheolwr ward Tŷ Cyfannol ar ddyletswydd, ond roedd tair nyrs gofrestredig Band 6 ar gael. Roedd hi'n anodd penderfynu pwy oedd y

person â gofal dros ward Tŷ Cyfannol yn absenoldeb rheolwr y ward a gwnaethom awgrymu bod hyn yn cael ei adolygu i edrych ar y posibilrwydd o gael person a enwir i fod yn gyfrifol am y ward pan nad yw rheolwr y ward ar gael.

Canfuom fod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion a dywedodd y staff fod y gwaith tîm ar y wardiau'n dda iawn. Dywedodd y staff wrthym fod nifer o newidiadau staffio wedi cael eu gwneud ar ward Tŷ Cyfannol ac, o ganlyniad, eu bod yn datblygu diwylliant sy'n newid. Dywedodd y staff o'r holl wardiau eu bod yn teimlo fel eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-reolwyr, gan eu disgrifio fel hawdd mynd atynt, a gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo fel eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd yn gadarnhaol, drwy gydol yr arolygiad, fod y staff ar yr holl wardiau'n agored i'n safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Gwelsom a dywedodd y staff wrthym fod eu wardiau wedi ffurfio timau da. Gwelsom waith tîm da ac unigolion brwdfrydig yn darparu gofal ymroddedig i gleifion. Roedd yn gadarnhaol gweld hyn a'i glywed oddi wrth staff, yn enwedig o ward Tŷ Cyfannol, oherwydd trosiant uchel y staff y mae'r ward hon wedi'i brofi dros y misoedd diwethaf. Ar adeg ein hymweliad, dim ond nifer bach o swyddi gwag oedd angen eu llenwi.

Roedd hi'n gadarnhaol gweld effaith a mantais sylweddol therapi galwedigaethol ar y wardiau a'r grŵp cleifion a gwelsom weithgareddau ar waith ar y ddwy ward yn ystod ein hymweliad. Fodd bynnag, roedd adborth gan gleifion a rhai staff yn cadarnhau nad oes fawr o weithgarwch gyda'r nos a thros y penwythnos, yn enwedig ar ward Tŷ Cyfannol. Trafodwyd hyn yn ystod y cyfarfod adborth gydag aelodau staff uwch a chawsom ein sicrhau bod y broblem hon yn cael sylw. Gwnaethom groesawu barn yr uwch-reolwyr a byddem yn annog ymagwedd at weithgareddau a therapïau nad yw'n gyfyngedig i ddydd Llun i ddydd Gwener, 9pm–5pm.

Gwnaethom adolygu hyfforddiant staff a nodi bod rhaglen orfodol ar waith ar gyfer yr holl staff. Gwnaeth adolygiad o systemau Tŷ Cyfannol nodi nad oedd y staff yn gyfredol o ran eu hyfforddiant, gyda rhai aelodau staff yn cadarnhau hyn ar lafar. Yn ystod ein trafodaethau â staff ac uwch-reolwyr, tynnwyd sylw at y ffaith fod oedi gyda'r system Cofnod Staff Electronig ac felly nid yw'n adlewyrchu statws presennol hyfforddiant staff yn gywir. Roedd y matrices hyfforddi sydd ar gael i ward Tŷ Cyfannol hefyd yn nodi bylchau sylweddol

mewn hyfforddiant. Gyda dwy system ar waith ac nid y naill na'r llall yn gallu darparu cofnod cywir o hyfforddiant staff, argymhellwyd y dylai'r broblem hon cael ei datrys cyn gynted â phosib i sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ofalu am y grŵp cleifion.

Roedd matrices hyfforddi i'w weld yng nghorlan y nyrsys ar ward Annwylfan yn fwy calonogol oherwydd ei fod yn nodi bod y mwyafrif o'r hyfforddiant wedi'i ddiweddarau.

Dywedodd staff wrthym y gallent gael mynediad at hyfforddiant ychwanegol ac allanol perthnasol gyda chymeradwyaeth y rheolwr llinell, a byddai hwn yn cael ei gofnodi i gadarnhau eu presenoldeb.

Roedd trafodaethau â staff yn nodi bod hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl penodol yn cael ei ddarparu'n fewnol a bod gan bob ward hyrwyddwr Deddf Iechyd Meddwl i gefnogi'r staff. Gwelwyd bod y rôl hon yn faes o arfer nodedig oherwydd cymhlethdod y ddeddfwriaeth. Er nad oedd amserlen benodol ar waith er mwyn diweddarau hyfforddiant, dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu hannog i fynychu'n rheolaidd.

Roedd staff yn derbyn arfarniadau blynyddol wedi eu cofnodi ynghyd â dyddiadau cwblhau a gofnodwyd ar y system Cofnod Staff Electronig. Roedd goruchwyliaeth ar waith ar gyfer nyrsys sy'n fyfyrwyr drwy'r llyfryn preceptorïaeth, a oedd hefyd yn cael ei gynnig i'r holl staff eraill.

Cofnodwyd digwyddiadau ar y system Datix⁴ a dywedodd y staff wrthym y byddai gwersi a ddysgwyd yn cael eu trafod gyda thimau'r wardiau yn ôl y gofyn.

⁴ System adrodd am ddigwyddiadau a rheoli risgiau yw Datix er mwyn adrodd am ddigwyddiadau clinigol a'u holrhain.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen sylw brys ar y system Cofnod Staff Electronig fel y gellir cael statws hyfforddiant staff cywir a'i adolygu i sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol er mwyn darparu gofal a thriniaeth ddiogel i'r grŵp cleifion.

4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG

Fel arfer, mae ein harolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Yn ystod ein harolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG, byddwn yn ystyried sut mae'r gwasanaethau'n gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#)
- Bodloni agweddau ar [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Ystrad Fawr

Ward(iau): Annwylfan, Tŷ Cyfannol a Thŷ Glas

Dyddiad yr arolygiad: 10 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith yn yr arolygiad hwn.				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Ystrad Fawr

Ward(iau): Annwylfan, Tŷ Cyfannol a Thŷ Glas

Dyddiad yr arolygiad: 10 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen gwelliannau i Dŷ Cyfannol, yn enwedig yn ardal yr ardd, lle dylid glanhau bonion sigarennau ac annog unigolion sy'n defnyddio'r cyfleuster i gynnal ymddangosiad glân a chroesawgar.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Byddwn yn adolygu cynnal a chadw'r ardd gymunedol â'r tîm ystadau i benderfynu p'un a all staff domestig ymgymryd â'r gwaith glanhau.	Brahms Robinson (uwch-nyrs)	1 Rhagfyr 2017
		Bydd y grŵp cymunedol cleifion yn codi'r mater fel pwynt trafod a gweithredu mewn perthynas â hylendid a moesau smygu a sensitifwydd i anghenion defnyddwyr eraill.	Karen James (rheolwr ward)	1 Rhagfyr 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen gosod goleuadau addas, yn enwedig yn y manau awyr agored, i sicrhau diogelwch y sawl sy'n defnyddio'r ardal oedd hynny.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Bydd y gyfarwyddiaeth bellach yn cynnal asesiad risg ar y goleuadau ac yn ystyried opsiynau ac adnoddau ar gyfer gwella gyda golwg ar gyflwyno papur opsiynau i'r Tîm Rheoli Rhanbarthol a'r Prif Swyddog Gweithredu i'w ystyried erbyn 18 Rhagfyr 2017.	Brahms Robinson (uwch-nyrs) / Esther Lowe (rheolwr gwella gwasanaethau)	18 Rhagfyr 2017
Mae angen i wybodaeth am gwynion fod yn weladwy ac ar gael i gleifion a'u teuluoedd. Mae angen gwella dealltwriaeth staff ynghylch y broses mae angen iddynt ei dilyn os ydynt yn derbyn cwyn.	6.3 Gwranddo a dysgu o adborth	Bydd y staff cleifion mewnol yn ymgymryd â hyfforddiant gloywi mewn perthynas â phrosesau Gweithio i Wella. Bydd tîm ansawdd a diogelwch cleifion y gyfarwyddiaeth yn hwyluso hyn. Mae'r hysbysfyrddau i gleifion/gofalwyr wedi cael eu diweddarau i ddangos yr wybodaeth bresennol sydd ar gael.	Alison Lewis (arweinydd ar ansawdd a diogelwch cleifion) Karen James	1 Rhagfyr 2017 Cwblhawyd
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae angen marcio ffurflenni absenoldeb Adran 17 fel wedi canslo pan fydd y cyfnod hwnnw o	Deddf Iechyd Meddwl 1983	Mae'r holl staff cofrestredig yn cael gwybod am argymhellion drwy'r	Karen James	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
absenoldeb wedi dod i ben.	– Cod Ymarfer Cymru 2016 27.17	trefniadau trosglwyddo a goruchwyliaeth. Ymgymryd ag archwiliad lleol i benderfynu ar gydymffurfio.	Alison Lewis (arweinydd ansawdd diogelwch cleifion) ar a	30 Ionawr 2018
Mae angen cwblhau ffurflenni Adran 17 yn llawn heb unrhyw fylchau.	Deddf Iechyd Meddwl 1983 – Cod Ymarfer Cymru 2016 27.17	Mae'r holl staff cofrestredig yn cael gwybod am argymhellion drwy'r trefniadau trosglwyddo a goruchwyliaeth. Ymgymryd ag archwiliad lleol i benderfynu ar gydymffurfio.	Karen James Alison Lewis (arweinydd ansawdd diogelwch cleifion) ar a	Cwblhawyd 30 Ionawr 2018
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae angen sylw brys ar y system Cofnod Staff Electronig fel y gellir cael statws hyfforddiant staff cywir a'i adolygu i sicrhau bod yr holl staff	7.1 Gweithlu	Mae'r pwynt gweithredu hwn wedi cael ei gyfeirio i'r tîm Cofnod Staff Electronig a bydd camau gweithredu'n cael eu	Martin Price	1 Rhagfyr 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol er mwyn darparu gofal a thriniaeth ddiogel i'r grŵp cleifion.		hadolygu yng nghyfarfod ansawdd a diogelwch cleifion nesaf y gyfarwyddiaeth.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Ana Llewellyn

Swydd: Nyrs Is-adrannol

Dyddiad: 10 Tachwedd 2017